

	<p>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llandysiliogogo a gynhalwyd yn Neuadd Caerwedros ac ar Zoom ar nos Fawrth, 18eg o Orffennaf am 7.30yh.</p> <p>YN BRESENNOL: Cyngorydd Heledd Dafis (Cadeirydd) Cyngorwyr Alun Evans, Vaughan Jones Celia Richardson, Annie Taylor, Mary Davies a'r Cyngorydd Gareth Lloyd</p>	<p>Minutes of Llandysiliogogo Community Council Meeting held at Caerwedros Hall and on Zoom on Tuesday the 18th of July at 7.30pm</p> <p>PRESENT: Councillor Heledd Dafis (Chair) Councillors, Alun Evans, Vaughan Jones, Celia Richardson, Annie Taylor, Mary Davies and Councillor Gareth Lloyd</p>
	<p>(7.30 – 9.00 yh)</p>	<p>(7.30 – 9.00pm)</p>
28	<p>Ymddiheuriadau Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyngorwyr Morys loan a Clinton Jones.</p>	<p>Apologies Councilors Morys loan and Clinton Jones had sent their apologies as they was unable to attend.</p>
29	<p>Datgan Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu Wnaeth y Cyngorydd Annie Taylor datgan buddiant personol yn eitem 34.01</p>	<p>Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest Councillor Annie Taylor declared a personal interest in item 34.01</p>
30	<p>Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod gynhalwyd 20fed o Fehefin 21.03 er mwyn cywirdeb mi oedd y stampiau dosbarth cyntaf yn £55.00 25.03 camgymeriad yn y cofnod Saesneg – Plwmp nid Plump.</p>	<p>Confirm the minutes of the meeting held on 20th of June 21.03 for correction the first class stamps would cost £55.00 25.03 Spelling error it should read Plwmp nor Plump.</p>
31	<p>Materion yn codi 25.01 Cyfarfod Arolwg Tai lleol – mi fydd y Clerc yn rhannu'r cofnodion gyda'r Cyngorwyr. 25.04 Cais i'r Cyngor Sir am arwydd arwydd 'Post Office / Y Swyddfa Bost' yn Plwmp er mwyn denu sylw at y wasanaeth. Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb oddi wrth Adran Rhwydwaith Strategol Llywodraeth Cymru yn nodi; Nid polisi Llywodraeth Cymru yw llofnodi, hyrwyddo na hysbysebu busnesau unigol yn union wrth ymyl y gefnffordd ar sail diogelwch ar y ffurdd a'r anhrefn gweledol a</p>	<p>Matters arising 25.01 Local Housing Survey Meeting – clerk will share minutes of the meeting with Councillors. 25.04 Application to the County Council for a 'Post Office / Post Office' sign in Plwmp to remind residents of the service. Clerk has received a response from Welsh Government transport stating; It is not Welsh Government policy to sign, promote or advertise individual businesses immediately adjacent to the trunk on the grounds of road safety and the visual chaos that may</p>

		<p>allai godi o'r arwyddion. Mae tro sydyn yn union wrth ymyl Swyddfa'r Post gyda threfniant cyffordd gymhleth iawn lle gallai arwyddion ychwanegol nad ydynt yn hanfodol dynnu sylw defnyddwyr y ffordd.</p> <p>CYTUNWYD i ysgrifennu'n ôl at yr adran yn gofyn iddynt a fyddent yn ystyried gosod arwyddion yn unrhyw le arall yn agos at Swyddfa'r Post gan fod y Cyngor Cymuned yn gweld y gwasanaeth y mae Swyddfa'r Post yn ei gynnig yn hanfodol i aelodau'r Gymuned.</p>	<p>arise from the signs. There is a sharp turn immediately adjacent to the Post Office with a very complex junction arrangement where additional non-essential signs could alert road users.</p> <p>It was AGREED to write back to the department asking them whether they would consider placing signs anywhere else in close proximity to the Post Office as the Community Council sees the service the Post Office offers as a necessity for members of the Community.</p>
32	Adroddiad y Cyngorydd Sir	32	County Councillor's Report
	Cyfarfod fori (19.07.23) er mwyn clywed adborth staff yn dilyn adolygiad polisi gweithio'n Hybrid.		Meeting tomorrow (19.07.23) to hear feedback from staff following a review of the Hybrid working policy.
	Cardi Bach – Gwasanaeth Bws		Cardi Bach – Bus Service
	Mae cyllid o pedwar mis wedi dod oddi wrth Llywodraeth Cymru ac yn cael ei weinyddu gan Cyngor Sir Gar, mae'r broses tender wedi cael ei chynnal gyda P&S yn ennill hwnna. Mae'r bws odd P&S yn defnyddio allan o ddefnydd ond mae bws arall ar gael ond mae hwnnw lawr yn y De. Ar hyn o bryd, rydym yn aros i Llywodraeth Cymru arwyddo cytundeb am y bws yma gan mae Cyngor Sir Ceredigion, Sir Gar a P&S eisioed wedi arwyddo.		Funding of four months has come from the Welsh Government and is administered by Carmarthenshire County Council, the tender process has been completed with P&S winning. The bus that P&S used is currently out of use but there is another bus available but that is down in the South Wales. There is a delay as we are currently waiting for the Welsh Government to sign an agreement for this bus as Ceredigion County Council, Carmarthenshire County Council and P&S have already signed.
	CYTWUNYD i ysgrifennu at AS Elin Jones yn diolch i'r llywodraeth am ariannu'r wsanaeth am y pedwar mis nesaf ac hefyd yn gofyn iddi beth fydd yn dogwydd i'r wsanaeth unwaith bydd y cyllid yn dod i ben.		It was AGREED to write to MP Elin Jones thanking the government for funding for the next four months and also asking for clarification on what will happen to the service once the funding has finished.
33	Cyllid	33	Finance
	Balans agoriadol - £18,047.06 (rhai taliadau heb clirio eto)		Opening Balance - £18,047.06 (some payments are yet to clear)
	33.01 Cyflog Clerc Gorffennaf - £144.80 33.02 HMRC Gorffennaf - £56.80 33.03 Awdit Cymru ffioedd 21/22 - £240.00 33.04 Zoom - £47.96 33.05 Inc - £31.79 33.06 Glanhau Toiledau - £305.00 33.07 Postio Audit 22/23 - £9.19		33.01 Clerk Salary July – £144.80 33.02 HMRC July - £54.60 33.03 Audit Wales 21/22 fee - £240.00 33.04 Zoom - £47.96 33.05 Ink - £31.79 33.06 Cleaning Cwmtfydu toilets - £305.00 33.07 Posting of Audit documents - £9.19
	Balans wrth cau - £16,656.87		Closing balance - £16,656.87

34	Ceisiadau Cynllunio	22	Planning Applications
	34.01 A230456 - Land adjacent to Bro Ffion, Caerwedros, Llandysul. SA44 6BW		34.01 A230456 - Land adjacent to Bro Ffion, Caerwedros, Llandysul. SA44 6BW
	Nid yw triglion lleol wedi derbyn hysbysiad eto am gais cynllunio, Clerc cysylltu gyda'r Adran Cynllunio er mwyn cael eglurder os yw eiddo cyfagos rhan o'r broses ymgynghori.		Local residents have not yet received notification of planning application, Clerk to clarify with the Planning Department if neighbouring properties are still consultees.
	CYTUNWYD mi fydd y Cyngħorydd Heledd Dafis yn ysgrifennu ymateb ar rhan y Cyngor Cymuned gan nodi'r canlynol;		It was AGREED that Councillor Heledd Dafis would write a response on behalf of the Community Council mentioning the following;
	<p>1. Yr angen sydd am dai fforddiadwy gan fod y farchnad agored cymaint allan o gyrraedd pobl leol</p> <p>2. Na fydd prisiau'r ddau dŷ mawr o fewn cyrraedd pobl leol ac fod eisoes 7 tŷ oddi mewn i'r pris hwn eisoes yn bodoli o fewn milltir, felly nad oes galw yn lleol am y tai mawr hyn.</p> <p>Ac mae yma yn gyfle hefyd i sôn am yr union sgwâr yr hoffai'r datblygwr hwn godi'r tai arno. Mae hi'n amhosibl gweld o/i unrhyw gyfeiriad ar y sgwâr hwn a nodwn ei fod yn sgwâr peryglus. Mae angen ehangu'r sgwâr, yn enwedig gan gofio bod bws ysgol yn gorfol troi ar y sgwâr hwn ddwywaith y dydd gan ollwng plant ac yna mynd am yn ôl ac ymlaen i allu troi.</p> <p>Gofynnwn i'r Cyngor edrych i wella'r sgwâr hwn.</p>	<p>1. The need for affordable housing as the open market is so much out of reach for local people</p> <p>2. That the prices of the two large houses will not be within reach of local people and that 7 houses within this price already exist within a mile, therefore there is no local demand for these large houses.</p>	<p>Raise concerns about the crossroads on which this developer would like to build the houses. It is impossible to see from/in any direction on this junction and we note that it is a dangerous. The junction needs to be expanded, especially bearing in mind that a school bus has to turn on this junction twice a day dropping off children and then going for back and forth to be able to turn. We ask the County Council to look at improving this junction.</p>
35	Ceisiadau am gymorth ariannol	35	Request for financial assistance
	Dim ceisiadau.		No requests.
36	Gohebiaeth	36	Correspondence
	36.01 Sedd Gwag – dim diddordeb yn y sedd wag felly CYTUNWYD i adal yn wag am y tro.		24.01 Vacant Seat - no interest in the vacant seat. It was AGREED to leave it empty.
	36.02 Toiledau Cwmtydu		36.02 Cwmtydu Toilets
	Clerc i cysylltu gyda'r Cyngħorydd Aled Dafis ofyn os ei fod wedi derbyn ddyfynbrisiau ar gyfer gwaith atgyweirio ar yr adeilad.		Clerk to contact Councillor Aled Dafis to ask if he has had any quotes for repair works on the building.
	36.03 Cynllun Cydrddoldeb Ceredigion – nodi.		36.03 Ceredigion Equality Plan – noted.
	36.04 Cymhwyster Clerc		36.04 Clerk Qualifications
	Adroddodd y Clerc ei bod hi wedi cwblhau cymhwyster CiLCA, Llongyfarchodd y Cyngħorwyr hi ar y cyflawniad.		The Clerk reported that she had completed the CiLCA qualification, Councillors congratulated her on the achievement.

	36.05 Meinciau Cwmtydu, Caerwedros a Llwyndafydd	36.05 Bench in Cwmtydu, Caerwedros and Llwyndafydd
	<p>CYTUNWYD anfon cais i'r Cyngor Sir drwy Clic am ganiatâd i osod mainc gyhoeddus ar y tir y tu allan i'r toiledau yng Nghwmtydu. Bydd y Clerc yn cyflwyno. Bydd y Clerc hefyd yn cysylltu â'r Cynghorydd Aled Dafis i ofyn a all dynnu'r fainc a'r hysbysfwrdd yn Llwyndafydd, mae'r ddua ohonyн nhw wedi pydru.</p>	<p>It was AGREED to send in a request to the County Council via Clic for consent to place a public bench on the land outside the Toilets in Cwmtydu. The Clerk will submit. The Clerk will also contact Councillor Aled Dafis to ask if he can take away the bench and noticeboard in Llwyndafydd, they are both rotten.</p>
	36.06 Hysbysfwrdd Llwyndafydd	36.06 Noticeboard in Llwyndafydd
	<p>Mae'r hysbysfwrdd bellach wedi pydru, nid oes ganddo wydr plastig dros y drysau. Cytunwyd i'w dynnu i lawr. Clerc yn rhoi gwybod i CFF! Caerwedros am yr hysbysfwrdd fel y maent yn ei roi yno flynyddoedd yn ôl. Nid yw cynghorwyr yn dynuno prynu hysbysfwrdd newydd ar hyn o bryd.</p>	<p>The noticeboard is now rotten, has no plastic glass over the doors. It was AGREED to take it down. The Clerk will notify YFC Caerwedros about the noticeboard as they place it there years ago. Councillors do not wish to purchase a new noticeboard at this time.</p>
37	<p>Materion i adrodd / digwyddiadau</p> <p>Sioe Caerwedros 05.08.23</p> <p>Taith cerdded llwybr yr arfordir – nifer yn cael ei chynnal er mwyn dathlu 15 mlynedd.</p>	<p>Matters to report / events</p> <p>Caerwedros Show 05.08.23</p> <p>Coastal Path walks are being held to celebrate 15 years of the coastal path.</p>
38	<p>Materion i'w drafod adrodd / digwyddiadau</p> <p>Digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned</p>	<p>Matters to discuss on next month's agenda</p> <p>Arrangement for next meeting</p> <p>Community Engagement Event</p>
39	<p>Trefniadau'r Cyfarfod Nesaf</p> <p>Nos Fawrth 19eg o Fedi 2023 am 7.30yh yn Neuadd Caerwedros / Zoom.</p> <p>Gofynnodd y Clerc i'r Gynghorwyr a allem Aildrefnu cyfarfod mis Hydref oherwydd bod y Clerc ar wyliau. CYTUWNYD.</p>	<p>Arrangement for next meeting</p> <p>Tuesday the 19th of September 2023 at 7.30pm a Caerwedros Hall / Zoom</p> <p>The Clerk also asked Councillors if we could Re-arrange October's meeting due to the Clerk Being on holiday. It was AGREED.</p>

